LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

Cylchlythyr yr Archif Wleidyddol Gymreig
The Welsh Political Archive Newsletter

DATHLU CELEBRATING 30

# MANIFFESTO MANIFESTO 44

LLGC NLW


## DATHLU 30 MLYNEDD YR ARCHIF WLEIDYDDOL GYMREIG
## CELEBRATING 30 YEARS OF THE WELSH POLITICAL ARCHIVE

| | |
|---|---|
| PAPURAU PETER HAIN | PETER HAIN PAPERS |
| PAPURAU OLWEN DAVIES | OLWEN DAVIES PAPERS |
| ADOLYGIADAU LLYFRAU | BOOK REVIEWS |
| DARLITH BARWNES MORGAN | BARONESS MORGAN'S LECTURE |



www.llgc.org.uk

# PORTREAD O'R GWIR ANRHYDEDDUS ARGLWYDD HEYCOCK
# PORTRAIT OF THE RT HON. LORD HEYCOCK



Yn ddiweddar, prynodd y Llyfrgell y portread olew ar gynfas hwn gan Charles White o Farwn Heycock o Dai-bach ym Mwrdeistref Port Talbot.

Ganed Llewelyn Heycock ym 1905 yn fab i William Heycock, labrwr yn Nociau Port Talbot, a'i wraig Mary Elizabeth (née Treharne). Gadawodd yr ysgol yn 14 mlwydd oed a daeth o hyd i waith yn Iard y Dyffryn fel glanhäwr trenau. Aeth yn ei flaen i fod yn daniwr cyn dod yn yrrwr trenau i Reilffordd y Great Western. Gweithiodd ar y rheilffyrdd gydol ei oes.

Cymrodd ran flaenllaw ym mywyd y capel ac yn Undeb Cenedlaethol Dynion y Rheilffyrdd a daeth yn un o ffigyrau amlwg Streic Gyffredinol 1926. Daeth i adnabod Aneurin Bevan, a ddylanwadodd yn fawr arno, ynghyd â James Griffiths, ac fe'i hetholwyd yn Gynghorydd Sir dros Dai-bach ym 1937. Cynrychiolodd y ward hon hyd at 1977 a bu'n gadeirydd Pwyllgor Addysg Morgannwg rhwng 1944 a 1974. Gwasanaethodd fel aelod a chadeirydd Cyd-bwyllgor Addysg Cymru. Bu hefyd yn aelod o Gyngor Cymru a Mynwy o'r flwyddyn 1949. Roedd ei gefnogaeth i'r Gymraeg yn allweddol yn yr ymdrech i sefydlu ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y sir ac ym 1963 dyfarnwyd iddo Ddoethuriaeth yn y Gyfraith er anrhydedd gan Brifysgol Cymru.

Cafodd ei anrhydeddu â CBE ym 1959 ac yna fe'i gwnaed yn Arglwydd am Oes. Rhoddwyd iddo'r teitl Barwn Heycock o Dai-bach ym 1967 a chymerodd ran mewn dadleuon hyd at 1981. Yn sgil ad-drefnu llywodraeth leol, ef oedd Cadeirydd cyntaf Cyngor Sir Gorllewin Morgannwg.

The Library recently purchased an oil on canvas portrait by Charles White of Baron Heycock of Taibach in the Borough of Port Talbot.

Llewelyn Heycock was born in 1905 to William Heycock, a labourer in the Port Talbot Docks and his wife Mary Elizabeth (née Treharne). He left school at the age of 14, finding work at Dyffryn Yard as a locomotive cleaner, then as a fireman before becoming a train driver for the Great Western Railway. He worked on the railway all his life.

He was heavily involved with chapel culture and the National Union of Railwaymen and took a prominent part in the 1926 General Strike. He came into contact with and was influenced by Aneurin Bevan and James Griffiths and was elected as County Councillor for Taibach in 1937. He represented this ward until 1977, becoming chairman of the Glamorgan Education Committee between 1944 and 1974. He also served as a member and chairman of the Welsh Joint Education Committee and a member of the Council for Wales and Monmouthshire from 1949. His support for the Welsh language was key to establishing Welsh-medium schools in the county and in 1963 he received an honorary Doctorate in Law from the University of Wales.

He was awarded a CBE in 1959, and then made a life peer in 1967, with the title Baron Heycock of Taibach, taking part in debates until 1981. With the re-organisation of local government, he became the first Chairman of West Glamorgan County Council.

Llun clawr: Arglwydd Morris gan Keith Breeden, trwy ganiatâd Amgueddfa Casgliad Celf Prifysgol Morgannwg / Cover image: Lord Morris by Keith Breeden, reproduced by kind permission of the University of Glamorgan Art Collection Museum





## Ychwanegiadau i bapurau Peter Hain AS

Daeth dau flwch bach i law ym mis Mawrth 2013 i'w hychwanegu at gasgliad yr Aelod Seneddol dros Gastell-nedd. Mae'r rhain yn cynnwys grŵp atodol bychan o bapurau gwleidyddol sy'n dyddio o'r cyfnod rhwng 2002 a 2013 ac maent yn cynnwys gohebiaeth, nodiadau areithiau, cylchlythyron, deunydd printiedig a thoriadau papurau newydd. Mae peth o'r deunydd yn dyddio o'r cyfnod pan oedd Peter Hain yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Gogledd Iwerddon. Ymhlith y pynciau sy'n cael sylw mae datganoli yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a swyddogaeth yr undebau llafur. Mae gwaith catalogio'r casgliad yn mynd rhagddo. Cyflwynwyd y casgliad ar adnau i'r Llyfrgell yn 2008 a throswyd yr adnau'n rhodd yn Hydref 2012.

–

## Ychwanegiadau i Bapurau Cymdeithas Ryddfrydol Sir Drefaldwyn

Yn ystod y flwyddyn, ychwanegwyd 9 ffeil flwch at gofnodion Cymdeithas Ryddfrydol Sir Drefaldwyn. Mae'r papurau hyn yn dyddio o'r cyfnod rhwng 1904 a 1939 a cheir yno sawl ffeil sy'n cynnwys gohebiaeth, cofnodion y Gymdeithas a'i hamrywiol bwyllgorau ac is-bwyllgorau, deunydd ariannol, toriadau papur newydd a deunydd printiedig. Ceir nifer o ffeiliau sy'n dyddio'n ôl i ymgyrchoedd yr etholiadau seneddol yn Sir Drefaldwyn rhwng 1906 a 1929. Ceir hefyd bapurau sy'n ymwneud â Ffederasiwn Rhyddfrydol Gogledd Cymru rhwng 1940 a 1946 a Ffederasiwn Rhyddfrydol Cymru rhwng 1943 a 1945. Mae'r cofnodion yn dyddio'n ôl i gyfnod David Davies, Llandinam (1880–1944) yn Aelod Seneddol Rhyddfrydol dros Sir Drefaldwyn, 1906–29, a blynyddoedd cynnar ei olynydd, E. Clement Davies (1884–1962) yn cynrychioli'r sir.

–

## Papurau Olwen Davies (CND)

Roedd yn bleser mawr gan y Llyfrgell dderbyn swp mawr o bapurau a gasglwyd gan y ddiweddar Mrs Olwen Davies (1924–2011) o Aberystwyth. Roedd Mrs Davies yn gyn Is-gadeirydd CND Cymru ac roedd hefyd yn gynrychiolydd ar Gyngor Prydeinig CND. Yn ogystal â hynny, roedd yn aelod o'r Grŵp Ymgynghorol Rhyngwladol ac yn un o sylfaenwyr Rhwydwaith Heddwch Aberystwyth, a ddaeth yn gorff dylanwadol. Treuliodd flynyddoedd lawer yn yr Eidal fel cantores opera broffesiynol cyn dod i Geredigion i ymddeol yn y 1980au a threuliodd sawl blwyddyn yng Nghomin Greenham yn cefnogi'r merched yno. Chwaraeodd Mrs Davies ran flaenllaw hefyd ym Mhrosiect Plant Chernobyl, oedd yn cefnogi teuluoedd ym Melarws a effeithiwyd gan y trychineb niwclear, ac mae'r ymrwymiad hwn wedi'i adlewyrchu yn y papurau hyn.

Mae'r papurau, sy'n dyddio'n bennaf o'r 1990au a degawd cyntaf y mileniwm, yn cynnwys nifer o bosteri lliwgar, deunydd printiedig, taflenni, rhifynnau o gylchgronau perthnasol a phapurau cynadleddau. Ceir hefyd beth gohebiaeth a ffotograffau. Maent yn cyfoethogi'r archif ganolog sylweddol CND Cymru a gyflwynwyd eisoes ar adnau i'r Llyfrgell, ynghyd â sawl grŵp o gofnodion nifer o grwpiau lleol a gwahanol unigolion sy'n weithredol o fewn CND.

## Additions to Peter Hain MP Papers

Two small boxes were received in March 2013 to add to the collection of the MP for Neath. These comprise a small supplementary group of political papers from the period 2002–13, including correspondence, speech notes, circulars, printed material and press cuttings. Some material dates from the period when Peter Hain was Secretary of State for Wales and for Northern Ireland. Among the subjects covered are Welsh devolution, Northern Ireland, and the role of the trade unions. Cataloguing the collection is in progress. The archive was deposited at the Library in 2008 and the deposit was converted to a donation in October 2012.

–

## Additions to Montgomeryshire Liberal Association Papers

During the year 9 box files were added to the records of the Montgomeryshire Liberal Association. These papers cover the years 1904–39, comprising extensive files of correspondence, the minutes of the Association and its various committees and sub-committees, financial material, press cuttings and printed material. There are many files deriving from the Montgomeryshire parliamentary general election campaigns for the period 1906–29. There are also papers relating to the North Wales Liberal Federation, 1940–46, and the Liberal Federation of Wales, 1943–45. The records cover the period 1906–1929 when David Davies, Llandinam (1880–1944) was the Liberal MP for Montgomeryshire, and the early years of its representation by his successor E. Clement Davies (1884–1962).

–

## Olwen Davies CND Papers

The Library was pleased to receive a substantial group of papers accumulated by the late Mrs Olwen Davies (1924–2011) of Aberystwyth. She was a former vice-chair of CND Cymru and was also a representative on CND's British Council, a member of the International Advisory Group, and a founder member of the influential Aberystwyth Peace Network. Mrs Davies, a professional opera singer based in Italy for many years, retired to Ceredigion in the 1980s and spent much time at Greenham Common, supporting the women there for several years. Mrs Davies was also active in the Chernobyl Children's Project, which supported families in Belarus affected by the nuclear disaster, a commitment reflected in these papers.

The papers, dating mainly from the 1990s and the 2000s, comprise a large number of colourful posters, printed material, flyers, issues of relevant magazines, and conference papers. There is also a small quantity of correspondence and photographs. They complement the large central archive of CND Wales previously deposited at the Library, together with the records of local groups and various individuals active within CND.

## Ychwanegiadau at Bapurau Cynog Dafis

Roedd yn bleser mawr gan y Llyfrgell dderbyn ffeil o bapurau sy'n ymwneud â'r berthynas rhwng Plaid Cymru, y Sefydliad Materion Cymreig a Chomisiwn Richard yng nghyd-destun datganoli yng Nghymru yn y blynyddoedd ar ôl sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys memoranda a baratowyd gan y diweddar Athro Dafydd Jenkins a Simon Thomas, ynghyd â gohebiaeth rhwng Cynog Dafis a John Dixon, gynt yn ffigwr amlwg yn y Blaid. Mae'r ffeil hefyd yn cynnwys deunydd yn ymwneud â Gweithgor Cyfansoddiadol Plaid Cymru rhwng 2007 a 2008.

–

## Archifau eraill a ddaeth i law yn ddiweddar

- Ffotograff du a gwyn o gyfarfod o aelodau Plaid Ryddfrydol Cymru, tua 1930
- Cylchlythyr oddi wrth Heddychwyr Cymru, a arwyddwyd gan George M. Ll. Davies a Gwynfor Evans (NLW ex 2666)
- Ffotograff sy'n dangos aelodau Plaid Cymru yn protestio yn Aberystwyth, o gwmpas y 1970au
- Ffeil i'w hychwanegu at Bapurau John Morris yn cynnwys drafftiau cynharaf y bennod sy'n ymwneud â Chosofo (pennod 21), i'w chynnwys yn ei lyfr *Fifty Years in Politics and the Law*, a gyhoeddwyd yn 2011
- Effemera llenyddol sy'n gysylltiedig â David Lloyd George ac a gasglwyd ynghyd gan Mr William Griffiths, rheolwr a llyfrwerthwr o Adran Gymraeg Foyle, Llundain (NLW ex 2807–2808)
- Casgliad Terence H. O'Neill o oddeutu 75 o bosteri sy'n ymwneud yn bennaf â Phlaid Cymru ond hefyd yn ymwneud â'r Ceidwadwyr, Llafur, y Rhyddfrydwyr a'r Farchnad Gyffredin
- 4 ffotograff i'w hychwanegu at Gasgliad Gareth Vaughan Jones
- 3 blwch gan Simon Thomas sy'n ymwneud â'i waith fel AS dros Geredigion rhwng 2000 a 2005
- Blwch o ddeunydd sy'n ymwneud ag achosion llys rhai o aelodau Cymdeithas yr Iaith ar ddiwedd y 1960au a dechrau'r 1970au

–

## DATHLU 30 MLYNEDD YR ARCHIF WLEIDYDDOL GYMREIG

### Cartref Diogel: Yr Archif Wleidyddol Gymreig 1983–2013

O ganlyniad i'r ymgyrch codi arian a fu'n gysylltiedig â dathlu 75 mlwyddiant Llyfrgell Genedlaethol Cymru ym 1982, clustnodwyd rhywfaint o gyllid ar gyfer sefydlu'r Archif Wleidyddol Gymreig. Bu'r Llyfrgell erioed yn enwog am gasglu ffrwyth llenyddiaeth Cymru, ond roeddem yn ymwybodol nad oedd ein treftadaeth wleidyddol yn cael ei diogelu yn yr un modd. Aed ati felly i unioni hynny a sefydlwyd yr Archif yn swyddogol ym 1983.

Tîm bach rhyngadrannol oedd yn gyfrifol am y trefniadau a chefais y cyfrifoldeb a'r fraint o'i arwain. Ni cheisiwyd cywiro'r rhagdybiaeth allanol bod yr holl ddeunydd gwleidyddol a gasglwyd yn cael ei gadw mewn un ystafell yn y Llyfrgell. Er bod hyn yn bell o fod yn wir, roedd yn ddefnyddiol o safbwynt ein hamcanion.

Ceisiwyd canolbwyntio ar achub archifau pleidiau gwleidyddol a phapurau gwleidyddion amlwg, gyda chryn lwyddiant. Bellach mae archifau o swyddfeydd Cymreig yr holl brif bleidiau gwleidyddol wedi'u diogelu, ynghyd â phapurau llawer o brif wleidyddion y genedl, gan gynnwys sawl Ysgrifennydd Gwladol ac arweinwyr blaenllaw eraill.

Aed ati hefyd i gasglu llenyddiaeth etholiadol, gan ddechrau gydag etholiad cyffredinol 1983 pryd y diogelwyd cannoedd o daflenni ymgeiswyr seneddol (a'u haddewidion!). Gwnaed hyn drwy fagu cysylltiadau ym mhob etholaeth a pharheir i weithredu felly hyd heddiw.

Ym 1984 sefydlwyd pwyllgor ymgynghorol, gyda'r prif amcan o fagu cysylltiadau yn y byd gwleidyddol. Dros y blynyddoedd, talodd hynny ar ei ganfed wrth i'r aelodau, a oedd yn cynnwys aelodau seneddol, trefnwyr o blith y pleidiau, newyddiadurwyr, darlledwyr ac ysgolheigion, hwyluso cysylltiadau gwerthfawr. Yng nghyfarfodydd y pwyllgorau, gosodwyd o'r neilltu ddaliadau plaid, er bod rhai aelodau yn arddel safbwyntiau gwleidyddol tanbaid (ar un adeg roedd y Thatcherydd Elwyn Jones a'r Marcsydd Gwyn Alf Williams yn eistedd wrth yr un bwrdd).

Yn wir, yr oedd (ac y mae) aelodau'r pwyllgor ymgynghorol yn llawn syniadau, rhai yn ymarferol ac eraill ddim. Un o'r syniadau gorau oedd cynnal darlith flynyddol, a gwahoddwyd cofiannydd Lloyd George, John Grigg, i draddodi'r ddarlith gyntaf ar 16 Hydref 1987. Dyma oedd diwrnod y dymestl fawr annisgwyl a achosodd anrhefn yn y wlad ac ofnid na fyddai'r darlithydd yn cyrraedd Aberystwyth mewn pryd. Yn ffodus fe lwyddodd ac yr oedd darlithfa'r Hen Goleg dan ei sang, fel y bu ar sawl achlysur wedi hynny. Yn ddiweddarach cafwyd nosweithiau tebyg yn y Drwm yn y Llyfrgell. Cyhoeddwyd y darlithoedd blynyddol cynnar ond bellach mae modd darllen y darlithoedd mwy diweddar ar wefan y Llyfrgell.

Syniad arall oedd cyhoeddi cylchlythyr ac ymddangosodd yr un cyntaf yn Chwefror 1986. Roedd yn llawn o newyddion perthnasol ac er nad oedd mor ddeniadol ei ddyluniad â'r un presennol, llwyddodd i dynnu sylw i'r Archif a'i gweithgareddau.

Mae gen i gof da am dderbyniad a drefnwyd yn Nhŷ'r Cyffredin un prynhawn o haf diwedd yr 1980au. Bu'r diweddar Geraint Howells A.S. yn garedig iawn yn gweithredu fel 'prif chwip', er mwyn sicrhau cynulleidfa deilwng ar gyfer y digwyddiad. Cawsom ambell i wydraid wedi hynny ar lannau'r Tafwys, pryd y clywais cyn was sifil yn galw'r Arglwydd Tonypandy yn 'old humbug' (er nid yn ei wyneb!).

Am gyfnod, llwyddwyd i benodi cynorthwyydd ymchwil, gyda'r cyntaf ohonynt, Dr Paul O'Leary, bellach yn un o haneswyr disgleiriaf Cymru. Parhaodd y cymorth mewnol, gyda Beti Jones, John Watts-Williams a Graham Jones yn arbennig o flaenllaw eu cyfraniad. Bellach capteiniaid eraill sydd wrth y llyw, ond gall yr Archif barhau i ymfalchïo yn natblygiad ei henw da fel cartref diogel i archifau a chyhoeddiadau gwleidyddol y genedl.

Gwyn Jenkins





## Additions to the Cynog Dafis Papers

The Library was pleased to receive a file of papers concerning the relationship between Plaid Cymru, the Institute of Welsh Affairs, and the Richard Commission on Welsh devolution during the years following the establishment of the National Assembly for Wales. These include memoranda prepared by the late Professor Dafydd Jenkins and Simon Thomas, and correspondence between Cynog Dafis and former party activist John Dixon. The file also includes material relating to the work of Plaid Cymru's Constitutional Working Party during 2007 and 2008.

–

## Other Archives recently acquired

- A black and white photograph of a meeting of members of the Welsh Liberal Party from around 1930
- A newsletter from Heddychwyr Cymru, signed by George M. Ll. Davies and Gwynfor Evans (NLW ex 2666)
- A photograph showing Plaid Cymru members protesting in Aberystwyth, c.1970s
- A file to add to the John Morris Papers containing the earliest drafts of the chapter on Kosovo (chapter 21), for inclusion in his book *Fifty Years in Politics and the Law*, published in 2011
- A collection of literary ephemera relating to David Lloyd George from Mr William Griffiths, manager and bookseller of Foyle's Welsh Department, London (NLW ex 2807–2808)
- The Terence H. O'Neill collection of approximately 75 posters, mainly of Plaid Cymru interest, but also relating to the Conservative, Labour, and Liberal parties, and the Common Market
- 4 photographs to add to the Gareth Vaughan Jones Collection
- 3 boxes from Simon Thomas relating to his work as MP for Ceredigion between 2000 and 2005
- A box of material relating to court cases of members of Cymdeithas yr Iaith in the late 1960s and early 1970s

–

## CELEBRATING 30 YEARS OF THE WELSH POLITICAL ARCHIVE

### A Secure Home: The Welsh Political Archive 1983–2013

As a result of the fundraising campaign associated with the celebration of the 75th anniversary of the National Library of Wales in 1982, some funds were earmarked for the establishment of the Welsh Political Archive. The Library has always been known for collecting the fruits of Welsh literature, but we were aware that our political heritage was not being secured in the same way. Steps were taken to rectify this and the Archive was officially established in 1983.

A small internal interdepartmental team was responsible for the arrangements and I was handed the responsibility and privilege of leading it. We did not discourage the external assumption that all the political material acquired was kept in one room in the Library. Although this was far from the truth, it suited our purpose.

We tried to focus on securing the archives of the political parties, together with the papers of prominent politicians, with some success. By now the archives of the Welsh offices of all the major political parties have been secured, together with the papers of many of the nation's leading politicians, including those of several Secretaries of State and other prominent leaders.

Steps were also taken to gather electoral literature, beginning with the 1983 general election when hundreds of leaflets of all parliamentary candidates (and their promises!) were collected. This was achieved through establishing contacts in each constituency, and this activity has continued to this day.

In 1984 an advisory committee was established, with the main objective of creating links within the world of politics. Over the years, this has paid off handsomely, with the members, which have included Members of Parliament, party organizers, journalists, broadcasters and scholars, facilitating valuable relationships. In the committee meetings, party sentiments were set aside, although some members held passionate political points of view (at one time the Thatcherite Elwyn Jones and the Marxist Gwyn Alf Williams sat at the same table).

In fact, members of the advisory committee were (and remain so) full of ideas, some practical and others not. One of the best ideas was to hold an annual lecture, and Lloyd George's biographer, John Grigg, was invited to deliver the first lecture on 16 October 1987. This was the day of the great and unexpected hurricane that caused chaos in the country, and it was feared that the lecturer would not reach Aberystwyth in time. Fortunately he arrived and the Old College's Lecture Theatre was packed, as it was to be on several occasions thereafter. Subsequently we experienced similar nights in the Library's Drwm. The early annual lectures were published, but the more recent ones now appear on the Library's website.

Another idea was to publish a newsletter and the first one appeared in February 1986. It was full of relevant news and although not as attractively designed as the current issues, it managed to draw attention to the Archive and its activities.

I have a good memory of a House of Commons reception organized one summer's afternoon in the late 1980s. The late Geraint Howells M.P. kindly acted as 'chief whip' by rounding up sufficient MPs to attend the event. We had a few drinks afterwards on the banks of the Thames, and I recall hearing a former civil servant calling Lord Tonypandy an 'old humbug' (though not to his face!).

For a time, we were able to appoint a research assistant, the first being Dr Paul O'Leary, who has since become one of Wales' most outstanding historians. The internal support continued, with Beti Jones, John Watts -Williams and Graham Jones making a particularly prominent contribution. Now other captains are at the helm, but the Archive can continue to take pride in the development of its reputation as a safe home to the nation's political archives and publications.

Gwyn Jenkins



*Aelodau Pwyllgor Ymgynghorol yr Archif Wleidyddol Gymreig*
*Members of the Welsh Political Archive Consultative Committee*

## Archifau sydd wedi cyrraedd yn ystod y 30 mlynedd diwethaf

- Archifau'r prif bleidiau gwleidyddol yng Nghymru, sef y Ceidwadwyr Cymreig, y Democratiaid Rhyddfrydol, Llafur Cymru, Plaid Cymru a Phwyllgor y Gynghrair yng Nghymru (SDP/Rhyddfrydwyr)
- Archifau rhai etholaethau megis Ceidwadwyr Sir Benfro, Rhyddfrydwyr Sir Aberteifi a Rhyddfrydwyr Sir Drefaldwyn
- Archifau mudiadau ymgyrchu refferenda datganoli 1979, 1997 a 2011
- Archifau mudiadau gwleidyddol megis CND Cymru, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Ymgyrch Senedd i Gymru a TUC Cymru
- Nifer o archifau personal a theuluol yn ymwneud â David Lloyd George, Prif Weinidog y Deyrnas Gyfunol 1916-1922
- Archifau nifer o Ysgrifenyddion Gwladol Cymru a Gweinidogion y Swyddfa Gymreig, gan gynnwys Is-iarll Tonypandy, Barwn Cledwyn, Jim Griffiths, Arglwydd Crughywel, Peter Hain, Ron Davies, Gwilym Jones a Nicholas Bennett
- Archifau nifer sylweddol o Aelodau Seneddol, Aelodau Senedd Ewrop ac Aelodau'r Cynulliad fel Clement Davies, Beata Brookes, Dafydd Wigley, Barwn Hooson, Goronwy Roberts, Leo Abse a'r Arglwydd Elis-Thomas
- Archifau unigolion eraill fel Huw T. Edwards a Saunders Lewis
- Ers etholiad cyffredinol 1983, mae'r Archif wedi casglu deunydd ymgyrchu o bob etholaeth yng Nghymru gan gynnwys taflenni, llythyron, posteri a maniffestos trwy rwydwaith casglu
- Gwefannau pleidiau gwleidyddol, aelodau etholedig, blogiau a gwefannau ymgyrchu.

## Archives which have been received in the last 30 years

- The archives of the main political parties in Wales, i.e. Welsh Conservatives, Liberal Democrats, Welsh Labour, Plaid Cymru and The Alliance Committee in Wales (SDP/Liberals)
- Archives of some constituencies, e.g. Pembrokeshire Conservatives, Cardiganshire Liberals and Montgomeryshire Liberals
- The archives of the campaign organisations of the devolution referenda of 1979, 1997 and 2011
- The archives of political organisations, e.g. CND Cymru, Welsh Language Society, Parliament for Wales Campaign and Wales TUC
- A number of personal and family archives relating to David Lloyd George, Prime Minister of the United Kingdom 1916-1922
- The archives of a number of Welsh Secretaries of State and Welsh Office Ministers, including Viscount Tonypandy, Baron Cledwyn, Jim Griffiths, Lord Crickhowell, Peter Hain, Ron Davies, Gwilym Jones and Nicholas Bennett
- The archives of a large number of Members of Parliament, Members of the European Parliament and Assembly Members, such as Clement Davies, Beata Brookes, Dafydd Wigley, Baron Hooson, Goronwy Roberts, Leo Abse and Lord Elis-Thomas
- The archives of other individuals, such as Huw T. Edwards and Saunders Lewis
- Since the 1983 General Election, the Archive has collected campaign materials from all Welsh constituencies, including leaflets, letters, posters and manifestos through a collection network
- The websites of political parties, elected members, blogs and campaign websites.





## NEWIDIADAU STAFFIO YN YR ARCHIF WLEIDYDDOL GYMREIG

### Ymadawiad Dr John Graham Jones

Yn ystod yr haf ymadawodd John Graham Jones â'r Llyfrgell ac â'r Archif Wleidyddol Gymreig. Bu Graham yn gysylltiedig â'r Archif o'i sefydlu ym 1983, ac yn aelod o'r Pwyllgor Ymgynghorol o'r dechrau. Yn ddiweddarach bu'n Bennaeth ar yr Archif a'r blaenaf ymhlith ei selogion ac yn wyneb ac enw adnabyddus i bawb oedd yn gweithio yn y maes. Yn ystod ei gyfnod gyda'r Archif gwnaeth Graham gyfraniad sylweddol i astudio hanes gwleidyddol Cymru a thu hwnt, yn arbennig gyrfa David Lloyd George, gan gyhoeddi a darlithio yn eang. Elwodd llawer o ddefnyddwyr adnoddau'r Archif ar ei wybodaeth ddofn a'i gyngor a'i gymorth parod.

–

### Swyddogion newydd

Yn dilyn ymadawiad Graham daeth yr Archif Wleidyddol Gymreig o dan reolaeth Alwyn Roberts, Pennaeth Uned Archifau a Chofnodion Modern y Llyfrgell, ac apwyntiwyd Rob Phillips i fod yn Archifydd cynorthwyol gyda chyfrifoldeb dros drefnu gweithgareddau'r Archif. Defnyddir y newidiadau hyn fel cyfle i edrych o'r newydd ar rôl a swyddogaethau'r Archif i'r dyfodol.

## Deddfwriaeth newydd adnau cyfreithiol

Mae'r Archif Wleidyddol Gymreig bellach yn casglu nifer o wefannau o ddiddordeb gwleidyddol i gyd-fynd â'r archifau papur. Mae deddfwriaeth ddiweddar yn galluogi Llyfrgell Genedlaethol Cymru i wneud copïau archif o wefannau ym mharth y DU er mwyn eu cadw am y tymor hir, ond yn cyfyngu mynediad i'r copïau archif i ddarllenwyr yn adeilad y Llyfrgell yn unig. Mae'r Llyfrgell yn gweithio gyda'r llyfrgelloedd adnau cyfreithiol eraill i wneud copïau archif o holl wefannau'r DU yn flynyddol, ond i dargedu gwefannau detholedig i'w harchifo yn fwy aml fel bod modd gwneud copïau yn ystod ymgyrchoedd etholiadau a refferenda. Mae'r prif bleidiau gwleidyddol yng Nghymru, Ceidwadwyr Cymreig, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru , Llafur Cymru a Phlaid Cymru, ynghyd â nifer o Aelodau Seneddol, Aelodau'r Cynulliad a sefydliadau ymgyrchu eraill wedi rhoi eu caniatâd i'w gwefannau fod ar gael o bell. Bydd hyn yn creu adnodd ardderchog i ymchwilwyr y dyfodol.

–

Mae llyfr Russell Deacon, *The Welsh Liberals - The History of the Liberal and Liberal Democrat Parties in Wales* ar fin cael ei gyhoeddi gan Welsh Academic Press, Caerdydd. Mae'r llyfr yn cynnwys cyfweliadau gyda dros 40 o ffigyrau dylanwadol y Democratiaid Rhyddfrydol ac yn dilyn hanes y blaid a'i rhagflaenwyr.

## STAFF CHANGES AT THE WELSH POLITICAL ARCHIVE

### Departure of Dr John Graham Jones

During the summer, John Graham Jones left the Library and the Welsh Political Archive. Graham had been involved with the Archive since its inception in 1983 and was a member of the Advisory Committee from the very beginning. He later became Head of the Archive and one of its most ardent supporters. He was a well-known figure to all who worked within the sphere. During his time at the Archive, Graham made a significant contribution to the study of the political history of Wales, especially the study of the career of David Lloyd George, and he published and gave lectures widely on these subjects. Many users of the Archive's resources benefitted greatly from his vast knowledge and his advice and assistance.

–

### New Officers

Following Graham's departure, Alwyn Roberts, Head of the Library's Archives and Modern Records Unit, took over the Welsh Political Archive and Rob Phillips became Assistant Archivist with responsibility for organising the Archive's activities. These changes afford us an opportunity to take a fresh look at the Archive's functions and its role for the future.

## New legal deposit legislation

The Archive now collects a number of websites of political interest to complement the paper archives. Legislation has recently been enacted to enable the National Library of Wales to make snapshot copies of websites in the UK domain for long term preservation, but restricts access to any archived copies of websites to readers visiting the Library in person. The Library is working with the other legal deposit libraries to undertake a general crawl of UK websites on an annual basis; however, more frequent targeted archiving of certain websites will continue, allowing archiving to take place in the lead up to elections and referenda. The main political parties in Wales, Plaid Cymru, Welsh Conservatives, Welsh Labour and the Welsh Lib Dems, along with a number of MPs and AMs and other campaigning organisations, have given their permission for archived copies of their websites to be available remotely. This will create a wonderful resource for researchers of the future and will open up access to this material to encourage research.

–

Russell Deacon's book, *The Welsh Liberals, The History of the Liberal and Liberal Democrat Parties in Wales* is about to be published by the Welsh Academic Press, Cardiff. The book includes interviews with over 40 influential Liberal Democrat figures and charts the history of the Party and its predecessors.





# IS-ETHOLIAD YNYS MÔN
# YNYS MÔN BY-ELECTION

Gweithiodd yr Archif yn ddiwyd i gasglu deunydd ynglŷn â'r is-etholiad diweddar yn Ynys Môn. Casglwyd llythyron at etholwyr oddi wrth Blaid Cymru, Llafur Cymru, UKIP, y Ceidwadwyr Cymreig a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ynghyd â'r Blaid Lafur Sosialaidd a byddant yn cael eu hychwanegu at Gasgliad Effemera Gwleidyddol Cymru. Lle rhoddwyd caniatâd i wneud hynny, gwnaed copïau archif o wefannau'r pleidiau a oedd yn ymladd yr etholiad a gofynnwyd am ganiatâd yr ymgeiswyr i archifo'u gwefannau.

The Archive was active in collecting material relating to the recent Assembly by-election on Ynys Môn. Leaflets and letters to electors from Plaid Cymru, Welsh Labour, UKIP, the Welsh Conservatives, Welsh Liberal Democrats and the Socialist Labour Party were collected and will be added to the Welsh Political Ephemera Collection. Where permission had been granted, archive copies were made of the websites of parties contesting the election and permission was sought from candidates to archive their websites.







MERTHYR BOROUGHS ELECTION.

Mr. D. A. Thomas again leads the way.

Mr. Keir Hardie successful.

The votes recorded throughout the 37 polling stations of the constituency on Tuesday were counted on Wednesday at the Drill Hall, Merthyr, and the result was announced by Mr T. L. White, returning officer, from the doorstep about a quarter past three o'clock in the afternoon, as follows:

ELECTED.

| | |
|---|---|
| *Mr D. A. Thomas, Liberal | 8595. |
| Mr Keir Hardie, Labour | 5745. |

NOT ELECTED.

| | |
|---|---|
| *Mr Pritchard Morgan, Liberal | 4004. |

* The old members.

| | |
|---|---|
| Majority for Thomas | 4591 |
| Majority for Hardie | 1741 |
| Thomas over Hardie | 2850 |

ANALYSIS OF VOTING.

| | | |
|---|---|---|
| Plumpers: | Thomas | 2070 |
| " | Morgan | 1472 |
| " | Hardie | 867 |
| Split votes: | Thomas and Hardie | 4437 |
| " | Thomas and Morgan | 2091 |
| " | Morgan and Hardie | 441 |

Votes spoilt, 34.

PREVIOUS ELECTIONS.

1892.

| | |
|---|---|
| D. A. Thomas, Liberal | 11948 |
| W. Pritchard Morgan, Liberal | 11756 |
| B. F. Williams, Conservative | 2304 |
| Majority for Thomas | 9644 |
| " Morgan | 9452 |

1895.

| | |
|---|---|
| D. A. Thomas, Liberal | 9250 |
| W. Pritchard Morgan, Liberal | 8554 |
| H. C. Lewis, Conservative | 6525 |
| Allen Upward, Labour | 659 |
| Majority for Thomas | 2725 |
| " Morgan | 2029 |

ATTEMPTING TO "GAG" THE LIBERALS.

The "North Wales Chronicle," as representing the Tory party at Bangor, has for the past few months been trying by means that are utterly unworthy of a public print to "gag" certain prominent Liberal gentlemen in that city in the hope that by so doing they may improve their own cause. Last week it attempted to boycot into silence that bold exposer of Tory fallacies—Mr John Price, vice-president of the Normal College. Week after week the "Chronicle" complains that the officials of an institution maintained by public subscriptions should not take part in political controversies, the object of the paper being to influence any Tory subscribers to withhold their support to the college, hoping, perhaps, that thereby it may be boycotted to starvation. We would remind the "Chronicle" that the Carnarvonshire and Anglesey Infirmary is maintained by the public, and that the medical officer of that institution always does what lies in his power to promote the Tory cause. If Dr Edwards could do more than give his presence at the different meetings he would do so, but unfortunately he cannot, and very probably that is the real reason why the "Chronicle" is so cruel against Mr Price, who has mental power equal to that of all the Tory doctors of Bangor put together. We might easily give the "Chronicle" a score of instances in which Tory holders of public offices are prominent and offensive partizans; but we do not wish to adopt such an unworthy course. It is, however, quite in keeping with the practices of the Tories to stab in a foul way an opponent that is too strong to be combated by fair weapons.

# DIGIDO PAPURAU NEWYDD Y 19EG GANRIF
# DIGITISATION OF 19TH CENTURY NEWSPAPERS

## 1,000,000 o dudalennau o hanes Cymru hyd 1910 ar-lein, am ddim.

Mae Papurau Newydd Cymru Ar-lein yn adnodd a fydd yn galluogi unrhyw un sy'n ymddiddori yn hanes a phobl Cymru i bori a chwilio 100 a mwy o deitlau o gasgliad cyfoethog y Llyfrgell o bapurau newydd cyn 1910 – a hynny yn rhad ac am ddim. Y cynllun hwn yw'r prosiect digido mwyaf i'r Llyfrgell ymgymryd ag ef. Mae prosiect Papurau Newydd Cymru Ar-lein yn cyfrannu at weledigaeth bellgyrhaeddol y Llyfrgell i fod y genedl gyntaf i ddigido'r cyfan o'i chynnyrch print cyhoeddedig a'i rannu yn rhad ac am ddim ar y we.

Nid yn unig y bydd Papurau Newydd Cymru Ar-lein yn galluogi'r ymchwilydd i bori a darllen copïau digidol y dudalen wreiddiol ond hefyd i allu chwilio am eiriau, enwau a dyddiadau ar draws yr un filiwn tudalen i gyd ar yr un pryd.

Ariannwyd y cynllun hwn trwy gymorth y Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru. Ceir adroddiadau am nifer o ddigwyddiadau gwleidyddol pwysig yn y papurau, gan gynnwys is-etholiad Bwrdeistrefi Caernarfon yn 1890 pan etholwyd David Lloyd George. Ceir adroddiadau manwl o'r ymgyrch a'r canlyniad yn y *North Wales Observer and Express* gan gynnwys yr adroddiad hwn wythnos ar ôl yr etholiad:

*"Mr Lloyd George won this election through sheer force of principle and popular enthusiasm against what may be termed the veritable powers of social and political darkness in this country. ….. Possession even in Parliamentary representation is sometimes nine tenths of the law, and now that Mr Lloyd George has had his foot down in the Carnarvon Boroughs, we have confidence in his ability not merely to hold his own, but so to improve his position as to make the seat finally impregnable to any Tory."*

Ceir adroddiadau manwl o etholiad 1900 yn etholaeth Merthyr Tudful, pan etholwyd Keir Hardie yn Aelod Seneddol dros y Blaid Lafur Annibynnol ym mhapurau'r ardal gan gynnwys yr *Aberdare Times* a *Tarian y Gweithiwr*:

*"The news that Mr Keir Hardie had succeeded in his candidature for the election was hailed generally with surprise. On the one hand it was certainly easy to conclude that after his systematic holdings of meetings throughout the constituency, Mr Hardie would not prove unsuccessful; but on the other hand it was difficult to picture either of the old members as unsuccessful, after having each been associated with the place for such a good period."*

*Aberdare Times*, 6 Hydref 1900

papuraunewyddcymru.llgc.org.uk

## 1,000,000 pages of pre-1910 Welsh history online, available free of charge.

Welsh Newspapers Online is a resource that will enable those who take a keen interest in the history and people of Wales to browse and search over 100 titles from the Library's rich collection of pre-1910 newspapers, free of charge. This scheme is the largest digitisation project ever undertaken by the Library. The Welsh Newspapers Online project contributes towards the Library's far-reaching vision of Wales becoming the first nation to digitise all of its published printed output and to provide this free of charge to users online.

In addition to enabling users to browse and read digital copies of the original pages, the Welsh Newspapers Online project will also give users the tools to search for words, names and dates from amongst the one million pages all at the same time.

The scheme received funding from the Strategic Capital Investment Fund and the European Regional Development Fund through the Welsh Government. Many reports on important political events appear in the newspapers, including the Caernarfon Boroughs by-election in 1890, when David Lloyd George was elected. There are detailed reports regarding the campaign and the result in the *North Wales Observer and Express*, including the following report a week following the election:

*"Mr Lloyd George won this election through sheer force of principle and popular enthusiasm against what may be termed the veritable powers of social and political darkness in this country. ….. Possession even in Parliamentary representation is sometimes nine tenths of the law, and now that Mr Lloyd George has had his foot down in the Carnarvon Boroughs, we have confidence in his ability not merely to hold his own, but so to improve his position as to make the seat finally impregnable to any Tory.'*

There are also detailed reports in local newspapers, including the *Aberdare Times* and *Tarian y Gweithiwr* regarding the 1900 Merthyr Tydfil election, when Keir Hardie was elected Member of Parliament for the Independent Labour Party:

*"The news that Mr Keir Hardie had succeeded in his candidature for the election was hailed generally with surprise. On the one hand it was certainly easy to conclude that after his systematic holdings of meetings throughout the constituency, Mr Hardie would not prove unsuccessful; but on the other hand it was difficult to picture either of the old members as unsuccessful, after having each been associated with the place for such a good period."*

*Aberdare Times*, 6 October 1900

welshnewspapers.llgc.org.uk



*Llyfrgell Genedlaethol Cymru / The National Library of Wales*

## Tân yn y Llyfrgell Genedlaethol

Ar 26 Ebrill bu tân mewn rhan o adeilad y Llyfrgell.

Ar ddydd Llun 29 Ebrill cwblhaodd y Llyfrgell y gwaith hanfodol o achub y casgliadau a oedd wedi eu lleoli yn ardal y tân ar adleolwyd 70 aelod o staff i rannau eraill o adeilad y Llyfrgell.

Difrodwyd chwe llawr mewn un rhan o'r Llyfrgell a adwaenir fel y 'Trydydd Adeilad' . Swyddfeydd oedd ar bump o'r lloriau hyn ac ystafell gyfrifiaduron ar y llawr gwaelod. Dim ond ar bedwar o'r chwe llawr yr oedd staff yn gweithio ar y casgliadau. Ni achoswyd niwed i drysorau mwyaf arwyddocaol y genedl, er i rai eitemau o'r casgliadau, er mawr siom, gael eu dinistrio. Oherwydd ymateb diymdroi'r staff wrth roi Cynllun Argyfwng y sefydliad ar waith yn syth, bu effaith y tân ar y casgliadau cenedlaethol gymaint â hynny'n llai.

–

## Catalogio

Mae archif Mudiad Gwrth-Apartheid Cymru wedi cael ei chatalogio yn ystod y flwyddyn ac mae ar gael i'w chwilio ar gatalog y Llyfrgell.

Mae gwaith catalogio yn parhau ar ddwy archif sylweddol arall, sef papurau Peter Hain AS a'r Arglwydd Davies o Landinam. Bydd gwaith trefnu a chatalogio archifau Barwn Temple-Morris yn dechrau yn y flwyddyn newydd.

–

## Pwyllgor Ymgynghorol yr AWG

Cyfarfu aelodau'r pwyllgor ar gyfer eu cyfarfod blynyddol ar brynhawn Gwener 2 Tachwedd 2012. Dyma oedd y cyfarfod olaf i ddau aelod o'r pwyllgor, Y Llyfrgellydd, Andrew Green a Glyn Parry. Diolchwyd iddynt am eu cyfraniadau dros y blynyddoedd a mynegwyd dymuniadau gorau am y dyfodol iddynt.

Yn ystod y cyfarfod cafwyd diweddariad ar waith yr Archif a chyflwyniad ar brosiect digido Rhyfel Byd 1914–1918 a'r Profiad Cymreig. Trafodwyd hefyd ddarlith yr Archif Wleidyddol Gymreig 2014 a phenderfynwyd estyn gwahoddiad i'r Athro Teresa Rees i draddodi'r darlith. Pleser oedd nodi ei bod wedi derbyn y gwahoddiad.

## Aelodau'r Pwyllgor

**Mr Lee Waters**
Rydym yn hynod o falch i nodi penodiad aelod o'r Pwyllgor Ymgynghorol, Mr Lee Waters, yn Gyfarwyddwr y Sefydliad Materion Cymreig. Rydym yn dymuno'n dda iddo yn ei rôl newydd.

**Aled Gruffydd Jones**
Penodwyd yr Athro Aled Gruffydd Jones yn Brif Weithredwr a Llyfrgellydd newydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Bydd yr Athro Jones yn dilyn Andrew Green a ymddeolodd fis Mawrth ar ôl 14 blynedd o wasanaeth clodwiw i'r Llyfrgell.

Roedd yr Athro Aled Jones yn Athro Hanes Cymru Syr John Williams, Pennaeth yr Adran Gymraeg a Dirprwy Is-ganghellor Hŷn Prifysgol Aberystwyth, a gwasanaethodd y Brifysgol hefyd fel Pennaeth Adrannau Hanes a Hanes Cymru ac fel Deon y Dyniaethau. Mae'n un o Ymddiriedolwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac yn Gadeirydd ei Bwyllgor Ymchwil. Mae'r Athro Jones yn hanesydd diwylliannol ac wedi cyhoeddi'n helaeth ar hanes Cymru fodern, hanes llafur, hanes cymdeithasol a diwylliannol y wasg ac ar y berthynas rhwng Cymru, yr Ymerodraeth Brydeinig ac is-gyfandir India yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Bu'n olygydd y *Welsh History Review* yn ogystal. Fe'i hetholwyd yn Gymrawd y Gymdeithas Hanes Frenhinol a bu'n gwasanaethu fel ei Chyfarwyddwr Llenyddol (Modern) ac fel aelod o'i Chyngor Gweithredol. Mae'r Athro hefyd yn aelod o Banel Hanes yr 'UK Research Excellence Framework' ac mae ganddo brofiad helaeth o reolaeth academaidd ac ymchwil ac fel ymgynghorydd i'r Llyfrgell Brydeinig ac i Lywodraeth Cymru.

Meddai Aled Jones am ei benodiad: "Braint o'r fwyaf yw cael y cyfle i arwain un o'n sefydliadau cenedlaethol mwyaf, er gwaethaf y sialensiau sy'n ein hwynebu. Rwy'n teimlo'n annheilwng o'r fraint. Rwy'n edrych ymlaen at drafod â'n rhanddeiliaid a'n defnyddwyr er mwyn canfod sut y gallwn eu gwasanaethu orau gan ymestyn yr un pryd at yr unigolion a'r cymunedau hynny nad ydym wedi gallu gweithio ond ychydig gyda hwy hyd yma, neu ddim o gwbl hyd yn oed. Wrth ddarparu'n gwasanaethau, rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda Llywodraeth Cymru, gyda Llywydd y Llyfrgell a'r Bwrdd Ymddiriedolwyr, a chyda staff hynod ddiwyd y Llyfrgell, a hynny er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i fod yn ddarparwyr gwybodaeth anghymharol mae'n hawdd mynd ati."

Mae'r Athro Aled Jones yn frodor o Lanfrothen ym Meirionnydd, Gwynedd, a chafodd ei addysg yn Ysgol Ardudwy, Harlech, a Phrifysgol Efrog. Graddiodd yn y Dosbarth Cyntaf mewn Hanes o Brifysgol Efrog a chafodd MA gyda rhagoriaeth a PhD o Brifysgol Caerwair. Ymunodd ag Adran Hanes Prifysgol Aberystwyth ym 1979 a bu'n Bennaeth yr Adrannau Hanes a Hanes Cymru rhwng 1994 a 2002. Fe'i penodwyd yn Athro Hanes Cymru Syr John Williams ym 1995 a gwasanaethodd fel Deon Cyfadran y Dyniaethau ac mae wedi bod yn Ddirprwy Is-ganghellor Prifysgol Aberystwyth ers 2005.







*Difrod y tân / Fire damage*

## Fire at the National Library of Wales

On 26 April, a fire broke out in a section of the Library building.

On Monday, 29 April, the Library completed the vital work of salvaging collections located within the area where the fire broke out and 70 staff members were moved to other parts of the Library building.

Six floors were damaged in one part of the Library which is known as the 'Third Building'. Offices were located on five of these floors and a computer suite was located on the ground floor. Staff members working on the collections were located on four of the six floors in question. The nation's most significant and valuable treasures sustained no damage, though some items from the collections were sadly destroyed. Due to the swift response of staff members, who immediately implemented the organisation's Emergency Plan, the impact of the fire on national collections was greatly reduced.

–

## Cataloguing

The archive of the Anti-Apartheid Movement in Wales was catalogued this year and is available to search on the Library's catalogue.

The cataloguing of two other large archives continues, namely the papers of Peter Hain MP and those of Lord Davies of Llandinam. The sorting and cataloguing of the archives of Baron Temple-Morris will begin early next year.

–

## WPA Consultative Committee

The committee held its annual meeting on the afternoon of Friday 2 November 2012. This would be the last meeting for two members of the committee, namely the Librarian, Andrew Green, and Glyn Parry. They were thanked for their contributions over the years and members wished them all the best for the future.

During the meeting, an update was received regarding the work of the Archive and a presentation was given regarding the First World War 1914–1918 and the Welsh Experience digitisation project. In addition, the 2014 Welsh Political Archive Lecture was discussed and it was decided to extend an invitation to Professor Teresa Rees to give the lecture. We are pleased to report that she has kindly accepted our invitation.

## Members of the Committee


**Mr Lee Waters**
We are happy to report that a member of the Consultative Committee, Mr Lee Waters has been appointed as the Director of the Institute of Welsh Affairs. We wish him every success in his new role.

**Aled Gruffydd Jones**
Professor Aled Gruffydd Jones has been appointed as Chief Executive and Librarian of the National Library of Wales. Professor Jones will follow Andrew Green who retired in March after 14 distinguished years as Librarian.

Professor Aled Jones was the Sir John Williams Professor of Welsh History, Head of the Welsh Department and senior Pro-Vice Chancellor of Aberystwyth University and has served as Head of the Departments of History and Welsh History and as Dean of Arts at the University. He is a Trustee of the new Coleg Cymraeg Cenedlaethol and Chair of its Research Committee. Professor Jones is a cultural historian and has published widely on the history of modern Wales, labour history, the social and cultural history of journalism and on the relationship between Wales, the British Empire and the Indian sub-continent in the nineteenth and early twentieth centuries and has been an editor of the *Welsh History Review*. Elected a Fellow of the Royal Historical Society he has served as its Literary Director (Modern) and as a member of its Executive Council. He is also a member of the History Panel of the UK Research Excellence Framework and has wide experience of academic and research management and as adviser to the British Library and the Welsh Government.

Aled Jones commented on his appointment: "It's a huge honour to have the opportunity to lead one of our great national institutions, albeit at a very challenging time. This is a very humbling experience for me. I look forward to engaging with our stakeholders and users to see how the Library can best serve their needs, now and in the future, and also how we can reach the many individuals and communities with whom we have had very little or even no contact at all with in the past. In delivering this service, I will work closely with the Welsh Government, with the Library's President and Board of Trustees, and the highly committed staff of the Library to ensure that we continue to be a world-leading and accessible information provider that meets the needs of modern Wales."

Professor Aled Gruffydd Jones, a native of Llanfrothen in Meirionnydd, Gwynedd was educated at Ysgol Ardudwy, Harlech, and the University of York, where he graduated with First Class honours in History. He gained an MA with distinction and a PhD at Warwick University. He joined the Department of History at Aberystwyth University in 1979 where he was the Head of the Departments of History and Welsh History from 1994 to 2002. He was appointed Sir John Williams Professor of Welsh History in 1995, served as Dean of the Faculty of Arts and has been Pro-Vice Chancellor of the University since 2005.




**Richard Wyn Jones, Roger Scully, *Wales Says Yes***
**(Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd) pp 256.**
**ISBN: 9780708324851**

Mae'r llyfr hwn, gan ddau o brif academyddion gwleidyddol Cymru, yn adrodd hanes refferendwm 2011 ar ymestyn pwerau deddfu Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'n cychwyn drwy holi a oedd angen refferendwm o gwbl, o gofio bod y Cynulliad wedi meddu ar bwerau deddfwriaethol ers 2007 a bod pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ar refferenda wedi datgan mai dim ond wrth benderfynu ynghylch materion cyfansoddiadol sylfaenol y dylid eu defnyddio.

Mae'r awduron yn mynd ati i fwrw golwg dros gefndir hanesyddol y refferendwm, gan gynnwys polisi'r Blaid Lafur tuag at ddatganoli a refferenda 1979 a 1997 a Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Ceir pennod sy'n sôn am agweddau ac ynddi rhoddir sylw i'r modd y dechreuodd y farn gyhoeddus newid yng Nghymru ganol y 1960au a'r modd y daeth rhagor i gefnogi datganoli deddfwriaethol yn y cyfnod wedi datganoli. Mae hefyd yn cynnwys digon o ddata ystadegol. Mae pennod arall yn astudio Llywodraeth Cymru'n Un y Blaid Lafur a Phlaid Cymru rhwng 2007 a 2011 a'r ymgyrch ei hun, gan gynnwys ymgyrchoedd Ie Dros Gymru a Chymru Wir a'u gweithgareddau a'u trefniadaeth.

Mae rhan fawr o'r llyfr yn canolbwyntio ar ganlyniad y refferendwm gan fwrw golwg dros y ganran a bleidleisiodd a'r canlyniad fesul awdurdod lleol ac mae'n cymharu'r canlyniad â'r hyn a ddigwyddodd mewn refferenda eraill. Rhoddir sylw manwl i bwy a bleidleisiodd ac mae'n holi a wnaeth y ganran a bleidleisiodd ddylanwadu ar y canlyniad. Mae'r bennod olaf yn bwrw golwg dros oblygiadau refferendwm 2011 i Gymru ac i weddill y Deyrnas Gyfunol ac mae'n rhoi sylw i'r wasgfa ariannol bresennol yn y Deyrnas Gyfunol. Mae hefyd yn edrych tua'r dyfodol ac mae'n ystyried y posibiliadau o ran cyflwyno pwerau codi trethi i'r Cynulliad ynghyd â'r galwadau am ateb i Gwestiwn Gorllewin Lothian.

Rob Phillips

**Elystan Morgan, *Elystan – Atgofion Oes***
**(Y Lolfa, Talybont) pp 288.**
**ISBN: 9781847713278**

Cyfrol yw hon a ddeilliodd o gyfres o sgyrsiau golygedig rhwng yr Arglwydd Elystan Morgan a Dr Huw Williams. Ynddi cawn hanes dyn sydd wedi chwarae rhan bwysig ym mywyd cyhoeddus Cymru ers dros hanner canrif, a hynny o fewn y byd gwleidyddol a'r byd cyfreithiol.

Ond mae mwy i'r gŵr hwn na'r uchel swyddi parchus y mae wedi'u cyflawni dros y blynyddoedd. Cawn wybod am y bachgen ifanc direidus, llawn egni oedd yn brysur yn chwarae triciau ar ei gyfoedion yn ardal Dole, Rhydypennau a Bow Street yng ngogledd Ceredigion. Roedd yn un parod i herio awdurdod athrawon a phrifathrawon, ac fe sylweddolodd yn ifanc iawn fod ganddo ddawn dweud a fyddai'n ei alluogi i osgoi cosb lem y gansen ar sawl achlysur. Mae'n esbonio hefyd sut y gwnaeth osgoi llid Cadeirydd yr Ynadon a'r Dirprwy Brif Gwnstabl yn Aberystwyth flynyddoedd wedyn, pan aeth dros ben llestri wrth chwarae tric ar ffrind. Unwaith eto fe sicrhaodd ei ddawn perswâd na fyddai'r mater ym mynd ymhellach, ac na fyddai ei yrfa gyfreithiol ar ben cyn iddi ddechrau'n iawn.

Does dim dwywaith nad oedd penderfyniad Elystan Morgan i adael Plaid Cymru ac ymuno â'r Blaid Lafur yn un wnaeth siglo'r mudiad cenedlaethol yn y chwedegau, ac yn un oedd wedi achosi siom enfawr i'w gyfaill Gwynfor Evans. Roedd sosialaeth a chenedlaetholdeb yn themâu oedd yn mynd law yn llaw ym meddylfryd Elystan Morgan, ac mae'n esbonio mai ei rwystredigaeth o fewn Plaid Cymru oedd un rheswm dros ei benderfyniad i newid plaid. Daeth cyfleoedd iddo yn fuan wedyn. Llwyddodd i ennill sedd sir Aberteifi i Lafur yn 1966, ac mae ei gariad at ei fro enedigol yn amlwg yn y modd y bu'n dadlau achos yr ardal mor egnïol yn San Steffan.


Cafodd ei ailethol, ond colli fu ei hanes yn 1974 ac fe ddychwelodd i fyd y gyfraith. Cawn hanesion difyr wrth iddo ddisgrifio rhai o'r achosion sy'n aros yn ei gof o'i gyfnod fel bargyfreithiwr a barnwr. Mae'n amlwg iddo wneud defnydd o'i brofiad helaeth yn y gyfraith wrth ei waith yn Nhŷ'r Arglwyddi, yn plethu ynghyd ei brofiad helaeth yn y ddau faes wrth drafod a chraffu deddfwriaeth yn yr ail siambr yn San Steffan.

Er holl lwyddiannau Elystan Morgan fel gwleidydd ac yn ei yrfa gyfreithiol, mae'n dweud na chyrhaeddodd 'unrhyw uchelfannau arbennig'. Fel Aelod Seneddol, bargyfreithiwr, Aelod o Dŷ'r Arglwyddi ac fel barnwr mae'r gyfrol yn profi'n wahanol, ac yn tystio i fywyd cyflawn gŵr gweithgar, gwylaidd a gostyngedig."

Gwyddno Dafydd
Adolygiad oddi ar www.gwales.com, trwy ganiatâd Cyngor Llyfrau Cymru.








**Richard Wyn Jones, Roger Scully, *Wales Says Yes***
**(University of Wales Press, Cardiff) pp 256.**
**ISBN: 9780708324851**

This book by two of Wales' leading political academics tells the story of the 2011 referendum on the lawmaking powers of the National Assembly for Wales. They start by exploring whether a referendum was needed at all given that the Assembly had enjoyed legislative powers since 2007 and that a House of Lords committee on referenda had declared that they should be used only when deciding on fundamental constitutional issues.

The authors explore the historical background to the referendum, including Labour Party policy towards devolution and the referenda of 1979 and 1997 and the Government of Wales Act 2006. A chapter on the study of attitudes looks at how public opinion in Wales moved from the 1960s onwards and how support for legislative devolution grew in the post-devolution period and contains plenty of statistical data. Another chapter studies the Labour-Plaid Cymru One Wales Government between 2007and 2011 and the campaign itself, including the activities and organisation of the Yes for Wales and True Wales campaigns.

A large section of the book is devoted to analysing the result of the referendum, looking at turnout and the result on a local authority basis and making comparisons with other referenda. The question of who voted is explored in detail and whether the turnout affected the result. The final chapter explores the implications for Wales and the rest of the UK of the 2011 referendum noting the current UK spending squeeze, and looking to the future with the possibility of tax-varying powers for the Assembly and demands for an answer to the West-Lothian Question.

Rob Phillips

**Elystan Morgan, *Elystan – Atgofion Oes***
**(Y Lolfa, Talybont) pp 288.** **ISBN: 9781847713278**

This volume stems from a series of edited discussions between Lord Elystan Morgan and Dr Huw Williams. It sheds light on the life of a man who has played an important role in Welsh public life for over half a century, both politically and legally.

However, there is more to this man than the respectable career he has carved himself throughout his life. We hear about the mischievous and energetic little boy who played tricks on his peers in the Dole area, Rhydypennau and Bow Street in north Ceredigion. He was always ready to challenge the authority of teachers and head teachers and realised from a very early age that his talent for articulate expression meant that he managed to avoid the cane on a number of occasions. It also explains the way in which he avoided the wrath of the Chair of the Magistrates and the Deputy Chief Constable in Aberystwyth years later after playing a trick on a friend that went a little too far. Once again, his powers of persuasion ensured that the matter would go no further and that his career in law would not be over as soon as it had begun.

There is no doubt that Elystan Morgan's decision to leave Plaid Cymru and join the Labour Party shook the national movement in the 1960s and it was a decision that greatly disappointed his friend, Gwynfor Evans. In Elystan Morgan's opinion, socialism and nationalism were themes that were intrinsically linked and he explains that his frustrations with Plaid Cymru contributed to his decision to switch allegiance to the Labour Party. Shortly after, other opportunities would come his way. He won the Cardiganshire seat for Labour in 1966 and his love for his native Cardiganshire was apparent in the way in which he became such an energetic champion for the area in Westminster.

He was re-elected but lost his seat in 1974, returning to a career in law. Entertaining stories are told as he describes some of the memorable cases he dealt with as a barrister and judge. It is obvious that he utilised his vast legal experience during his time in the House of Lords and drew upon his political and legal background when scrutinising legislation in the second Westminster chamber.

Despite Elystan Morgan's numerous successes both politically and legally, he claims that 'there have been few highlights'. As Member of Parliament, barrister, member of the House of Lords and judge, the volume paints a different picture and is testimony to a full and active life lead by a demure and unassuming man.

Gwyddno Dafydd
A review from www.gwales.com, with the permission of the Welsh Books Council.



Eluned Morgan

## Darlith y Farwnes Eluned Morgan

Ar nos Wener, 2 Tachwedd 2012, anerchodd y Farwnes Eluned Morgan gynulleidfa yn y Llyfrgell Genedlaethol yn chweched darlith flynyddol ar hugain Archif Wleidyddol Cymru. Roedd y Farwnes Morgan yn ASE Llafur dros Gymru rhwng 1994 a 2009, roedd yn aelod o Grŵp Cynghori'r Cynulliad Cenedlaethol a luniodd Reolau Sefydlog y corff hwnnw ac roedd yn un o sylfaenwyr Ymgyrch Ie Dros Gymru yn 1997. Gwnaed hi'n Arglwyddes yn 2010 ac mae ar hyn o bryd yn gwasanaethu yn Nhŷ'r Arglwyddi ac yn Gyfarwyddwraig Datblygu Cenedlaethol cwmni ynni SSE yng Nghymru. Y Farwnes Morgan yw'r bedwaredd ferch yn unig i draddodi darlith flynyddol Archif Wleidyddol Cymru.

Dewisodd y teitl 'Where next for Wales?' ac edrychodd i'r dyfodol gan geisio darogan sut le fyddai Cymru erbyn 2030. Yn hanner cyntaf y ddarlith, cafwyd darlun o wlad a oedd yn ei chael hi'n anodd ymdopi â newidiadau mawr y 18 mlynedd nesaf. Rhai o'r materion y rhoddodd sylw iddynt oedd iechyd a phoblogaeth sy'n heneiddio a gordewdra'n rhoi rhagor o straen ar y gwasanaethau iechyd. O ran y sector ynni, nid oedd Cymru wedi achub ar gyfleoedd ac roedd yn ei chael hi'n anodd ymdopi â thoriadau pŵer tra bod yr isadeiledd mewn rhannau eraill o Ewrop yn denu'r buddsoddiad. Roedd pobl yn fwy unig ac yn fwy anhapus ac er i'r Deyrnas Gyfunol aros o fewn yr Undeb Ewropeaidd, roedd prisiau bwyd wedi codi ac roedd y diffyg cydraddoldeb cynyddol wedi arwain at gynnydd dychrynllyd mewn troseddau.

Yna, aeth y Farwnes Morgan yn ei blaen i esbonio'r modd y byddai sefydlogrwydd cymharol Cymru'n rhoi cyfle unigryw i'r wlad gynllunio tuag at yr heriau hyn yn y tymor hir. Yn bennaf oll, roedd pwyslais ar addysg a hyfforddiant ym maes gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg, a sgiliau mathemateg ac iaith, Mandarin yn arbennig. Byddai'r rhain yn sbardun i ddatblygu economaidd a byddent yn creu swyddi yng Nghymru er mwyn annog pobl ifanc i aros yma a lleihau anghydraddoldeb. Cydnabuwyd yr anawsterau sydd ynghlwm wrth ddarparu gofal o safon dderbyniol i boblogaeth sy'n heneiddio, ynghyd â'r atebion y gellid eu sicrhau drwy annog ffordd iach o fyw, hyfforddi gofalwyr a sefydlu gwasanaethau gofal cymunedol dan reolaeth leol. Mae'r Farwnes Morgan yn mynnu bod gan y llywodraeth rôl hollbwysig wrth gynllunio tuag at yr heriau hyn a dywed y dylid mynd ati o ddifri i gynllunio tuag at y tymor hir.

Ewch i wefan y Llyfrgell Genedlaethol i weld testun llawn y ddarlith: www.llgc.org.uk/archifwleidyddolgymreig


## Baroness Eluned Morgan's Lecture

On the evening of Friday, 2 November 2012 Baroness Eluned Morgan addressed an audience at the National Library for the twenty-sixth annual Welsh Political Archive Lecture. Baroness Morgan was a Labour MEP for Wales between 1994 and 2009, sat on the Welsh Assembly Advisory Group which wrote the standing orders for the National Assembly and was a founder member of the Yes for Wales Campaign in 1997. She was awarded a peerage in 2010 and currently sits in the House of Lords as well as working as Director of National Development for the energy company SSE in Wales. Baroness Morgan is only the fourth woman to deliver the Welsh Political Archive annual lecture.

She chose the title 'Where next for Wales?' and looked into the future to predict how Wales could look in 2030. The picture painted in the first half of the lecture was of a country struggling to cope with the major changes of the next 18 years. Among the issues highlighted was health, where an ageing population and obesity were placing more strain on health services. In the energy sector Wales had missed out on opportunities and was struggling with power cuts while infrastructure in other parts of Europe attracted the investment. People were lonelier and less happy, and while the UK had remained in the European Union, food prices had increased and increasing inequality had led to a massive increase in crime.

Baroness Morgan then set out how Wales' relative political stability provided a unique opportunity to plan for these challenges over the long term. Foremost amongst these was an emphasis on education and training in science, technology, engineering and maths and language skills, particularly Mandarin. These would drive economic development, creating jobs in Wales to encourage young people to stay and reducing inequality. There was a recognition of the difficulties in providing decent care for an ageing population and potential solutions through encouraging healthy lifestyles, training carers and establishing locally managed community interest care services. Baroness Morgan insists that there is a crucial role for government in planning for these challenges, actively engaging to plan for the long term.

The full text of the lecture can be found via the National Library's website at: www.llgc.org.uk/archifwleidyddolgymreig




**DARLITH FLYNYDDOL YR ARCHIF WLEIDYDDOL GYMREIG 2013**
**WELSH POLITICAL ARCHIVE ANNUAL LECTURE 2013**

# CENEDL Y CYMRY A'R DEYRNAS UNEDIG

## ARGLWYDD MORRIS O ABERAFAN
## LORD MORRIS OF ABERAVON

**Drwm, Llyfrgell Genedlaethol Cymru**
**Gwener, 1af Tachwedd 2013, 5.30pm**

Yr Arglwydd Morris o Aberafan, cyn Aelod Seneddol Llafur dros Aberafan (1959–2001), Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Thwrnai Cyffredinol, fydd yn traddodi'r ddarlith eleni, y ddiweddaraf yn y gyfres flynyddol bwysig hon. Pwnc y ddarlith fydd *Cenedl y Cymry a'r Deyrnas Unedig.*

*Traddodir yn y Gymraeg; ceir cyfieithiad ar y pryd i'r Saesneg.*

*Mynediad am ddim drwy docyn*

**Drwm, The National Library of Wales**
**Friday 1st November 2013, 5.30pm**

Lord Morris of Aberavon, the former Labour MP for Aberavon (1959–2001), Secretary of State for Wales and Attorney General delivers this year's lecture, the latest in this popular and prestigious series. The subject will be *Cenedl y Cymry a'r Deyrnas Unedig* [The Welsh Nation and the United Kingdom].

*Lecture in Welsh, with simultaneous translation.*

*Free admission by ticket.*

**TOCYNNAU/TICKETS**
**01970 632 548 – www.llgc.org.uk/drwm**

**LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU**
**THE NATIONAL LIBRARY OF WALES**

Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3BU

t: 01970 632 800
f: 01970 615 709
post@llgc.org.uk


**Oriau Agor Cyffredinol / General Opening Hours**

Dydd Llun – Dydd Gwener/ Monday – Friday
9:30am – 6:00pm
Dydd Sadwrn/Saturday
9:30am – 5:00pm


LLGC NLW

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

www.llgc.org.uk

ISSN 1365-9170

dylunio/design elfen.co.uk